# Llais yr Andes

*Papur Bro Hydref (Trevelin ac Esquel)* *Rhagfyr 2014*

Pris: $10

# Dathlu Gŵyl y Glaniad yn Yr Andes

## Gŵyl y Glaniad Trevelin

Roedd 50 o bobl wedi cwrdd yn Ysgol 57 i ddathlu Gŵyl y Glaniad gyda swper arbennig. Cawson ni empanadas i ddechrau a wedyn cyw iâr, tatws wedi stwnshio, moron, pys a grefi, a fel pwdin bwyton ni bwdin reis. Merched y Gymdeithas Gymraeg goginiodd popeth. Buodd plant y grŵp dawnsio gwerin yn gweini'r bwyd.  Ar ôl y swper cawson ni gystadleuaeth, bob bwrdd yn cael papur a beiro ac yn ateb cwestiynau am hanes Trevelin. Roedd e´n ddiddorol iawn a'r wobr oedd cacen flasus iawn gyda mefus. Wnaeth y grŵp enillodd rannu'r gacen gyda phawb chwarae teg iddyn nhw. Gyda'r tocyn mynediad roedd raffl hefyd a chyfle i ennill pethau fel llyfrau a chwpanau. Hefyd wnaethon ni chwarae pasio'r parsel, a wnaethon ni adael anrheg o dan cadair hefyd, felly roedd rhai pobl wedi mynd adre â rhywbeth bach i gadw. Buodd y grŵp dawnsio gwerin yn dawnsio 3 dawns a wedyn i orffen roedd Vicente Evans ac Irving Evans yn chwarae'r acordion, cyfle i ddawnsio vals, rancheras, paso doble a tango. Cawson ni noson hyfryd iawn….diolch yn fawr iawn i bawb!!!

*Jessica Jones*

## Gŵyl y Glaniad Esquel

Wnaethon ni ddathlu Gŵyl y Glaniad ar yr wythfed ar hugain o fis Gorffennaf yn y Ganolfan yn Esquel, tu ôl i Gapel Seion. Cawson ni gig moch a chyw iâr efo pob math o salad i swper, a hufen iâ efo dau saws melys gwahanol i bwdin. Roedd y Ganolfan yn llawn pobl a chawson ni lawer o hwyl a chwmni da.

Wnaethon ni raffl lliain bwrdd oedd wedi cael ei wneud gan Glenda Lloyd –merch Teddy Lloyd.  Mae hi´n byw yn Tandil ar hyn o bryd -talaith Buenos Aires - a wedi gwneud y crysau-t a'r bagiau ar gyfer dathlu Canmlwyddiant a hanner ers i'r Cymry ddod i Batagonia. Sandra Mayor enillodd y lliain bwrdd hyfryd. Hefyd, fel bob blwyddyn, cyfrannodd Amy Roberts gacen Mil Hojas i'r raffl, a enillodd Margarita Roberts y gacen, ar ddiwrnod ei phenblwydd. Chwarae teg iddi hi am rannu´r gacen efo pob un oedd yn y swper. Roedd her i bawb i sgwennu acróstico efo "Gŵyl y glaniad", a gallwch eu darllen ar dudalen 12.

*Romina Azzolini*









Yn y rhifyn hwn:

Llongyfarchiadau - tudalen 3

Ymweliad ffrindiau o Gymru - tudalen 9

Ble maen nhw'n awr? - tudalen 17

............................a llawer, llawer mwy!

Eluned Evans-Grandis

Eich papur bro chi ydy hwn, felly cofiwch anfon eich cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf at Eluned Jones - elunedjones67@hotmail.co.uk.  Diolch yn fawr.

**Gair gan y golygydd:**



Y mae wedi bod yn bleser pur golygu 'Llais yr Andes' yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a dymunaf bob llwyddiant i'r papur bro hollbwysig hwn yn y dyfodol. Diolch i bob un ohonoch am eich cefnogaeth ac '*hasta luego*!

Eluned Evans-Grandis

Blwyddyn arall wedi mynd.  Tymor arall wedi dod i ben.  Nifer o blant wedi mwynhau yn y dosbarth Meithrin gyda Marina wrth chwarae, paentio, canu ac adrodd.  Hefyd, mwynheuon nhw lasiad o sudd ffrwythau a bisgedi a dysgu cyfarwyddiadau angenrheidiol i fyw mewn bywyd cymdeithasol.  Cafwyd grŵp Wlpan brwdfrydig iawn eleni yn dysgu'n gyflym rhwng mate a mate a cheisio siarad pob cyfle y cawson nhw.  Mae grŵp yr arddegau bron â gorffen eu cwrs Wlpan, grŵp o fechgyn prydlon a chyfrifol.  Manteision nhw i siarad yr iaith gyda grwpiau ifanc o Gymru a wnaethon nhw fwynhau pob gweithgaredd yn fawr iawn.  Enillodd un ohonyn nhw ysgoloriaeth Tom Gravell a bydd o'n treulio tri mis yng Ngholeg Llanymddyfri blwyddyn nesaf.  Cafwyd tymor llwyddiannus dros ben, safodd sawl myfyriwr arholiadau CBAC – Sylfaen a Chanolradd gyda lefelau uchel iawn.  Hyfryd oedd derbyn gymaint o gardiau post a llythyron o Gymru hefyd ar ôl apêl Eluned ar Radio Cymru – diolch yn fawr iawn i bawb.

Bu ymwelwyr o Gymru eleni unwaith eto sef grŵp Ffermwyr Ifanc, grŵp Urdd Gobaith Cymru a chawsom noson arbennig o ganu yng Nghapel Seion a swper i ddilyn a chymdeithasu.  Cawsom brynhawn o ddysgu coginio alfajores gyda Natalia a Mike yn dangos sut i baratoi mate blasus a chawson ni wers Sbaeneg gan Liliana.  Bu Iwan yn arwain chwaraeon i'r plant bach.  Cafodd bopeth ei gynnal yn y Ganolfan.  Erbyn diwedd y tymor bydd pawb yn gallu cymryd rhan mewn Micro Eisteddfod am y bedwaredd flwyddyn bellach.

Hoffwn ddweud diolch i bawb sy wedi troi fyny i fynychu dosbarthiadau, yn arbennig i'r gwragedd hŷn sy'n ein hymfalchïo ni gyda'u presenoldeb yn y dosbarthiadau a'u cefnogaeth i bob achlysur y bydd yr ysgol yn ei baratoi.

Diolch i Dduw am ei feddiant ac edrychwn ymlaen at orffen y flwyddyn gyda dymuniadau gorau i bawb dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd!

*Gladys Jones*





# Llongyfarchiadau

Cynhaliwyd Eisteddfod Mimosa Porth Madryn ar y 9fed o Awst 2014.  Cyflwynir Tlws yr Eisteddfod - Gwobr Telyn am gerdd neu gyfres o gerddi - testun o ddewis yr awdur.

Gofynwyd i mi feirniadu'r gystadleuaeth yma ar y cychwyn ond pan welais safon y cyfansoddiadau a ddaeth i law wedi eu hysgrifennu mewn gwers rydd di-odl roeddwn yn benderfynol y dylid gofyn i Brifardd o Gymru feirniadu gan nad oeddwn yn teimlo y medrwn wneud cyfiawnder â'r beirdd.

Bûm yn ddisgybl i'r Prifardd Eirwyn George yn Ysgol y Preseli, Crymych, Sir Benfro ac fe wyddwn yn iawn y buasai'n rhoi beirniadaeth haeddiannol.  Enillodd Eirwyn Goron Genedlaethol Abertawe yn 1982 a Choron Llanelwedd yn 1982.

Cysylltais ag Eirwyn a gofyn iddo a fyddai'n fodlon beirniadu ac roedd yn hollol barod ac ymhen deuddydd danfonodd feirniadaeth lawn.

Braint o'r mwyaf oedd traddodi'r feirniadaeth o lwyfan Eisteddfod y Mimosa a chanfod mai Mary Green o Drevelin oedd yn fuddugol. Ys dywed y Prifardd Eirwyn "Cydiodd y gerdd hon ynof ar y darlleniad cyntaf. Yr iaith yn lân a'r dweud yn gofiadwy. Mae'n dechrau gyda'r bardd yn sôn am ei fam ac yn gorffen gyda darlun myfyrgar o'i blentyn bach.  Yn y pennill olaf  mae'n cyfuno profiad yr unigolyn a hynt y ddynoliaeth ar hyd y canrifoedd. Bardd o'r iawn ryw sy'n siarad ymhob llinell."

Eto dywed " Onid yw perl yn rhywbeth gwerthfawr? Y mae herio'r dyfodol hefyd yn peri inni feddwl ac yn rhoi'r dychymyg ar waith.  Heb fanylu rhagor, digon yw dweud fod hon yn gerdd sydd wedi ei saernïo'n gelfydd drwyddi draw.   Mewn cystadleuaeth ddiddorol  mae'n bleser cyhoeddi fod ARIANRHOD yn glir ar y blaen; ac yn llawn deilwng o wobr ac anrhydedd yr Eisteddfod."



Gobeithio y cewch fwynhad yn darllen y gerdd.

Cofion o Ddyffryn Camwy at bawb yn yr Andes.

*Eluned Jones*





# Bywyd

Ddoe.
Cofiaf wyneb tirion fy mam a'i chrychni yn gwysi mân,
Pob rhigol yn bennod , pob llinell yn gân.
Yno, 'roedd pryderon a liwiodd ei dyddiau,
Yno, 'roedd awelon a lanwodd ei hwyliau
o lawenydd, o ddolur, gorfoledd a chur.
Profiadau ac atgofion,
dyddiau a fu.

Y wên hudolus fu'n cynnal,
yn cario'r gobaith a'r cariad,
y mwynder a'r gofal.
Coflaid dyner yn clymu amdanaf,
fel mewn breuddwyd.
Amser maith yn ôl.

Y llygaid gleision,
adlewyrchai calon lân gyhyrog
tecach na'r lili,
a cheinder heintus y meddyliau mwyn,
a lenwai y galon,
ers talwm.

Heddiw.
Edrychaf ar brydferthwch fy mhlentyn,
A'r wên sy'n fory i gyd.
Teimlaf y llyfnder sidanaidd,
A chofleidiaf y corff eiddil.

Llygaid bywiog fel dwy berl
sy'n herio´r dyfodol.
Iaith ei hynafiaid fydd ar ei gwefus,
a seiniau'r Gymraeg fydd ei pharabl hi.

Ddoe a heddiw.
Cenedlaethau yn plethu trwy ei gilydd
ar hyd y canrifoedd.
Tylwyth, hil a thraddodiad
yn trosglwyddo eu trysorau.
Ddoe i heddiw,
a heddiw i yfory…
Bywyd.

Ffugenw: "Arianrhod"

## Llongyfarchiadau i Jeremias



Mae Jeremias Knobel, myfyriwr y cwrs Wlpan 2 yn Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel wedi ennill ysgoloriaeth Tom Gravell 2015. Bydd Jere yn treulio tymor y Gwanwyn yn astudio yng Ngholeg Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin. Llongyfarchiadau gwresog iddo a phob dymuniad da.

GWELL DYSG NA GOLUD

## Ennill raffl




Llongyfarchiadau mawr i Diana Nichols a Gladys Puelman, Esquel, am ennill hamper yr un yn llawn pethau blasus mewn raffl i godi arian i ddosbarth Meithrin Ysgol Gymraeg Esquel sy'n cael ei ddysgu gan Marina. Prynwyd gemau a llyfrau i'r plant gyda'r arian a godwyd.



Cystadleuaeth NEWYDD
Wyt ti rhwng 14 a 25?
Eisiau ennill Iphone 6?
Be' am roi tro ar gystadleuaeth #PethauBychain

#PethauBychain

Dyma be' sydd angen i ti wneud:
Tynna lun neu gwna fideo o'r #PethauBychain 'rwyt ti'n gwneud yn y Gymraeg e.e, fideo ohonot ti a dy ffrindiau yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg mewn siop, mewn gig, gêm rygbi/ pêl droed neu'n cymdeithasu...

#Pethau Bychain

CYMRAEG

Rho dy lun / fideo ar Facebook neu Twitter a chofia gynnwys #PethauBychain yn dy neges.

Dyddiad cau: 30 Tachwedd 2014
Twitter: @iaithfyw

Ewch i *'YouTube'* a theipiwch *Menter Patagonia Yr Andes* a chewch weld nifer o fideos !

You Tube

# Taith Ffermwyr Ifanc Cymru i'r Wladfa



Yn ystod pythefnos olaf mis Hydref cefais i, ac un ar ddeg o aelodau eraill o glybiau ffermwyr ifanc Cymru, gyfle bythgofiadwy i deithio i'r Ariannin ac ymweld â'r Wladfa. Roedd rhai ohonom yn adnabod ein gilydd cyn mynd, ag eraill yn cwrdd â'i gilydd am y tro cyntaf y bore hwnnw yn yr orsaf bws cyn dechrau'r daith. Ond, teg i ddweud, ar ôl treulio bron i ddeugain awr yn teithio ar fysiau ac awyrennau, daethom i adnabod ein gilydd yn dda mewn byr o dro, ac rwy'n siŵr y gwnaiff y daith hon ein clymu'n ffrindiau da weddill ein hoes.

Mudiad ar gyfer pobl ifanc o bob math o gefndiroedd yw'r Ffermwyr Ifanc, ac mae clybiau lleol yn cwrdd yn wythnosol yn eu cymunedau eu hunain. Yn dilyn hyn, cynhelir cystadlaethau ar lefelau sirol a chenedlaethol mewn amryw o wahanol feysydd, o feirniadu stoc i berfformio mewn Eisteddfodau, ac mae'r cystadlaethau hyn yn cynnig y cyfle inni gwrdd ag aelodau o ardaloedd eraill ledled Cymru. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r Ffermwyr Ifanc drefnu taith o'i math i'r Wladfa, a gobeithiwn y bydd y cysylltiad yn parhau.

Er mai am bythefnos yn unig y buom ni yn y Wladfa, llwyddasom i gywasgu cymaint o ddigwyddiadau a phrofiadau arbennig i mewn i'r bythefnos honno. Rhai o'r uchafbwyntiau inni yn y Dyffryn oedd cwrdd â chymdeithas Gymraeg Porth Madryn, gwylio morfilod ar y bae, mynychu Seremoni'r Orsedd yn y Gaiman, ymweld ag Ysgol yr Hendre, cystadlu yn yr Eisteddfod ac ymuno yng Nghymanfa Ganu'r Eisteddfod a chael ein cyfareddu gan fwrlwm y Gymraeg a ninnau mor bell o'n cartrefi ni yma yng Nghymru. Bu Joy Cornock ac Elin Rees yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod, a chipiodd Joy wobrau cyntaf yn y gystadleuaeth Unawd i Ferched a Chanu Emyn, ac Elin ar yr Unawd Offerynnol. Buom hefyd yn cystadlu fel grŵp mewn partïon canu a llefaru.

Roedd croesi'r Paith yn brofiad ynddo'i hun, a chawsom ein difyrru a'n diddori gan ein tywysydd profiadol Isaías Grandis. Roedd ymweld â'r gofeb yn Nyffryn y Merthyron yn brofiad iasol ynghyd â gweld olion yr hen ffordd a gymerodd y Cymry cyntaf wrth groesi'r Paith ger yr arwydd *Rocky Trip*.

Yn yr Andes wedyn, a'r tywydd dipyn oerach ac yn debycach i Gymru, cawsom ymweld â fferm Alejandro Jones a helpu (rhywfaint!!) ohono i symud y gwartheg ar gefn ei geffylau. Fel merched o gefn gwlad Cymru, a nifer ohonom yn byw ar ffermydd ein hunain, roedd hi'n ddiddorol iawn i gymharu traddodiadau ac arferion ffermio Cymru a Phatagonia. Mae'n debyg mai'r un yw brwydr y ffermwr ymhob gwlad i wneud ei fywoliaeth. Cawsom gyfle i ymweld â bedd y ceffyl Malacara, cartref John Daniel Evans ac amgueddfa ddiddorol yn hen felin, Trevelin. Uchafbwyntiau'r wythnos hon oedd cael Asado yng nghwmni'r teulu Green, a thrio'r ddiod *mate* am y tro cyntaf erioed yn ein bywydau! Cynhaliwyd cyngerdd arbennig yn Esquel ar 29ain o Hydref, ac roeddem ni wrth ein boddau yn cael cymryd rhan yn y noson ar y cyd gydag aelodau'r Urdd a'r bobl leol. Y diwrnod canlynol, cawsom ymweld ag Ysgol 18 a lleoliad Pentref Sydyn, cyn cael te yn Nhŷ Te Nain Maggie a llwytho'n cesys â jariau lu o jam llaeth blasus cyn ei throi hi am adref.



Yn wir, bu'r bythefnos yn bythefnos llawn chwerthin a mwynhad, ac ni allwn ond llai na rhyfeddu at y croeso twymgalon a gawsom ymhob man. Diolch yn fawr i chi, ddarllenwyr Llais yr Andes, am wneud inni deimlo mor gartrefol yn eich plith.



Cofion o Gymru,

*Megan Lewis, Alaw Owen, Joy Cornock, Mererid Davies, Elin Rees, Elin Dafydd, Siwan Davies, Elin Calan Jones, Gwennan Jenkins, Einir Ryder, Elen Williams* a *Clare Jerman.*

## Taith yr Urdd i'r Wladfa

**Dyma sylwadau rhai o griw'r Urdd am eu hamser yn yr Andes:**



**Wnes i fwynhau.................**

Cael amser rhydd i grwydro Trevelin ac Esquel
Ymweld ag Edith a Julie yn y cartref hen bobl
Cael coffi gyda'r henoed a'r golygfeydd anhygoel
Mynd i weld Elis – profiad hollol unigryw a'r uchafbwynt i fi'n bendant
Rafftio yn grêt - y gyngerdd yn y capel hefyd!
Dysgu Sbaeneg, gwneud alfajores a'r wers mate yn Esquel
Rafftio a chael cwrdd â'r henoed
Golygfeydd gwych, bwyd ffantastig a'r twmpath yn hwyl
Cael treulio amser bythgofiadwy gyda'r gymdeithas Gymraeg a'r rafftio
Rafftio a siarad gydag henoed yr ardal drwy gyfrwng y Gymraeg
Twmpath, te yn Nain Maggie, amser rhydd – popeth!
Cael te gyda Glenys
Mynd i fwytai lleol a mynd i dai'r henoed
Cyngerdd Esquel a'r bwyd
Golygfeydd gwych a siarad Cymraeg!
Cyfarfod â'r henoed, profiad gwirioneddol anhygoel
Cyngerdd Esquel a gweld bywyd go iawn mewn ardal mor arbennig – cyfarfod ag Elis a Clery Evans (pobl sydd wedi cael effaith mawr arna i)
Cymdeithasu a dysgu Sbaeneg
Bwyd y ganolfan hamdden (fegan)
Rafftio a gwersi Sbaeneg yn Esquel
Yr ardal – hyfryd! Wir wedi mwynhau popeth
Cyfarfod â'r henoed a rafftio
Y mynyddoedd, y golygfeydd a'r bwyd
Cyfarfod â phobl yr ardal (Alwen)
Cael te gyda Randal a rafftio
Cwrdd â'r gymdeithas (yn enwedig Alwen)
Te gyda chymdogion Trevelin a chyngerdd Esquel
Siarad gyda phobl yr ardal
Te Nain Maggie
Y stêc a chyngerdd Esquel
Ymweld â'r cartre hen bobl a'r bwyd











## Cofeb fyw 2015 – Ysgol Amlieithog Cwm Hyfryd



Os nad ydych chi wedi sylweddoli (ac efallai bod rhai sydd yn byw ar ynys bell yng nghanol y môr yn darllen y rhifyn hwn o 'Llais yr Andes'…mae mwy a mwy o bobl yn ei ddarllen bob tro) mae 2015 yn 'flwyddyn fawr' i ni sydd yma ar ddwy ochr Môr yr Iwerydd ac yn falch o'n diwylliant, sef dathlu Canmlwyddiant a Hanner ers cyrhaeddiad y Cymry cyntaf i lannau Patagonia a sefydlu'r Wladfa Gymreig yna. Mae llwyth o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu mwynhau gan niferoedd o bobl yn ystod y flwyddyn yng Nghymru ac yn yr Ariannin ond roedden ni yn yr Andes am geisio sicrhau y bydd yr iaith a'r diwylliant yn dal yma ymhen hanner can mlynedd eto, a pha ffordd well na chreu ysgol fydd yn dysgu'r plant mewn dwy iaith sef iaith gwlad yr Ariannin, y Sbaeneg, ac iaith sefydlwyr cyntaf y Dalaith, y Gymraeg?

Ers 18 o flynyddoedd bellach mae prosiect wedi cefnogi gwaith y cymunedau lleol yma yn Chubut trwy anfon athrawon a thiwtoriaid draw bob blwyddyn ac felly mae llawer o bobl leol wedi cael y cyfle i ddysgu, gwella neu loywi eu Cymraeg mewn dosbarthiadau lleol ac ar gyrsiau yng Nghymru diolch i ysgoloriaethau o Gymru. Mae rhai ohonynt rwan yn barod i gymryd yr awennau eu hunain a dechrau dysgu'r genhedlaeth nesaf felly aethpwyd ati i ddechrau gwireddu breuddwyd gyda'r gobaith y byddai ysgol gynradd llawn amser wedi'i chydnabod gan y Llywodraeth yn dechrau tyfu ym mlwyddyn y dathliadau.

Yn ystod y flwyddyn 2014 cynigiwyd mwy o oriau i'r plant lleiaf, sef plant 3 a 4 oed, ac yr oedd yr ymateb yn galonogol iawn gyda 17 o blant yn mynychu tri phrynhawn yr wythnos. Yr oedd hyn yn gyfle i'r athrawon ddechrau cynllun peilot o gynnwys elfennau addysgiadol sylfaenol yn ogystal ag iaith ac aethpwyd ati i gynnwys sesiynau symud (ymarfer corff), Mathemateg, Gwyddoniaeth, y Dyniaethau (Hanes a Daearyddiaeth) yn ogystal ag Addysg Iechyd a Chymdeithasol. Yr oedd y peilot yn ceisio cynnwys egwyddorion addysg y ddwy wlad gan barchu rheolau yr Ariannin tra'n adlewyrchu arfer orau Cymru hefyd – tipyn o gamp ond mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol wrth weld ymateb y rhieni i fodel arall o addysg i'w plant.

Mae pobl newydd wedi ymuno â phwyllgor gwreiddiol yr ysgol oedd wedi gweithio dros wyliau'r haf (sef Ionawr a Chwefror yma!) ar y papurau angenrheidiol ac erbyn hyn rydyn ni'n aros i gael cydnabyddiaeth gan y Llywodraeth cyn dechrau gweithio yn llawn amser.

Un o'r pethau mwyaf cyffrous ydy ar ôl blynyddoedd o ddefnyddio Tŷ'r Capel fel man i gynnal gwersi – sef hen dŷ'r gweinidog cynt – mae prosiect ar waith i adeiladu adeilad newydd fydd yn gartref i'r ysgol ac i weithgareddau cymdeithasol y Cwm. Y mae'r Llywodraeth wedi cynnig cefnogaeth ariannol ac mae'r Gymdeithas Gymraeg wedi bod yn hael yn rhoi lle ar dir y gymdeithas a chyfrannu at y proseict trwy werthu darnau o dir o'u heiddo hefyd.

Rydym yn fawr obeithio y bydd yr adeiladu yn dechrau cyn bo hir ond rhaid i ni gydnabod efallai bydd blwyddyn arall o beilot wrth aros am le addas ar gyfer ysgol swyddogol a fydd yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn wrth i'r plant dyfu yn hŷn. Dechreuwn efo'r plant lleiaf a'r gobaith ydy gweld nhw yn gorffen yr ysgol gynradd yn 2020! Prosiect hir dymor wir!

Pa ffordd well i gofio ymdrechion y gorffennol trwy geisio adeiladu sylfaen i'r dyfodol?

*Clare Vaughan*

Am fwy o wybodaeth am yr ysgol http://patagonia2015.com/cymysgolgymraeg.html neu ymunwch â'n grwp ar Facebook Ysgol Gymraeg Trevelin Cwm Hyfryd. Sonnir am ysgol ddwyieithog ond mewn gwirionedd bydd yr ysgol yn 'amlieithog' oherwydd bydd o leaif dwy iaith yn cael eu cynnig i'r plant!

# Ymweliad ffrindiau o Gymru



Ar ddechrau mis Medi eleni cawsom amser diddorol yng nghwmni Dr W James, Dr Bill Jones a'r Dr Walter Brooks o Goleg Caerdydd ar eu hail ymweliad i'r Andes.

Cyfarfod â nhw mewn swper wedi ei drefni i'w croesawu gan yr ysgol Gymraeg ar y ffarm, yng nghartre Charlie a Margarita.

Braf oedd ail afael ar sgwrs gyda Dr E W James wedi llawer blwyddyn. Diwedd y saithdegau buom yn cyd addoli yn Aberystwyth, mewn capel efengylaidd dan weinidogaeth Gordon Mac Donald.

Wrth gwrs, ei wraig Christine a fy chwaer Mary oedd prif destun y sgwrs, y ddwy yn nabod ei gilydd wrth fynychu encilion a chynadleddau pan yn fyfyrwyr.

I ddilyn yn eu cwmni cawsom wahoddiad i Esquel i wrando ar sgyrsiau gan Dr Bill Jones a'r Dr E Wyn James, gyda chyfieithiad gan Dr Walter Brooks.

Dr Bill Jones.

Y testun oedd: am 'Agweddau hanes y Wladfa' – David Stephen Davies- 'Annogodd y mudo i'r Wladfa, Yr oedd yn awdurdodol ac edrychiad heriol ganddo. Yr oedd yn anodd ei anghofio' meddai. Gweithgarwch brwd, ymgyrchu 1871-74. Dod ag Americanwyr i Batagonia.

Daeth i Chubut yn 1874.

Ysgrif toreithiog – 1872 Y Cymro 'El Galés' (manual), wedi ei wella, yn Mhatagonia yn 1881.

Ac o Scranton ddaeth David Roberts, perchennog y tŷ cyntaf yn Gaiman!

Soniodd hefyd am Longau 'Electric Spark' 1874 a suddodd ym môr Brasil. A'r 'Lucern'...

Yr oedd yn cael ei alw yn 'Apostol mawr y Wladfa' ('apóstol de la Colonia'). Ond i helpu dod â chriw i'r Wladfa aeth nôl i Fangor yn 1875 a bu farw yn Nghaerfyrddin yn 1898 yn 57 oed.

Roedd yn llawn egni, â barn cryf, ac yn fyfyriwr i M D Jones.

'Roedd E Wyn James yn sôn am lyfrau Eluned Morgan Jones, 'plentyn y môr'.

Ganed Eluned, ar y llong Myfanwy pan oedd wedi angori yn Gwasgwyn/ Bahía Bizcaya, 'cafodd y môr i siglo'i chrud..'

Tri llyfr: 'Dringo'r Andes' (o´r Dyffryn i'r Andes), 'Ar Dir a Môr' (taith i dde America) a 'Gwymon y Môr' oedd yn sôn am y daith i Batagonia.

Yr oedd yn rhamantus a breuddwydiol fel ei thad, Lewis Jones, fel mae'n sôn yn 'Yr Arlunydd' (El pintor) yn peintio'n rhy liwgar. Ei harwr oedd O M Edwards. Yr oedd hi'n adeg rhamantiaeth yng Nghymru. Mae'n sôn am ehangder y mynyddoedd fel y bardd R W Parry.

'Gwymon y Môr': Mordaith o Gymru i'r Ariannin. Disgrifir y 'Stormydd'. Roedd bod am bedair awr wedi ei chlymu ar ben mast y llong fel 'gwynfyd' iddi...

Roedd tyndra rhamantiaeth am Gymru ac am Batagonia. Aeth i Ddolgellau, yn 1885, pan yn 15 oed a chwrdd â dau frawd, John ac Edwyn Owen oedd yn argraffwyr. Daeth yn ôl i Batagonia, tair blynedd yn ddiweddarach, yn 1888.

Trafeiliodd eto i Gymru pan yn 26 oed ond i Gaerdydd y tro yma.

Yr oedd ganddi arddull llawn disgrifiadau ac 'roedd yn adeiladu'n dda mewn brawddegau. Hi oedd yr orau yn ysgrifennu rhyddiaith yn y Gymraeg ar y pryd, nesa at O M Edwards, yn rhamantydd, dyna maent yn dweud amdani pan maent yn sôn amdani fel un fwya pwysig yr oes yna.

→



'Dringo'r Andes', nid yw'n sôn am yr Andes yn y ddwy bennod gynta. Yn y cyntaf, mae'n sôn am orlifiad 1899 a disgrifia'r stormydd. Roedd tair mil yn byw mewn tentiau ar y bryniau. Ond daeth hi lawr gyda'r dynion i'w helpu! Ac fe wnaethon nhw gaban bach o bren iddi hi gysgu. A dyna lle buodd yn sgrifennu wrth olau cannwyll, a felly cafodd nerth a gobaith. Mae'n sôn yn y deuddeg bennod nesa am gysgu dan y lloer, croesi afonydd ar gefn ceffyl, sôn am ei chyfeillgarwch gyda´r Indiaid ac am eu herlediagaeth gan lywodraeth yr Ariannin.

'Gwareiddiad'

Daeth yn ôl yn bedwardeg wyth oed ar ddiwedd y rhyfel byd i fywyd llawer mwy hamddenol, heb sgrifennu, a'i holl fryd ar addysg a chrefydd. Roedd yn 'cwyno' bod y freuddwyd fawr yn dod i ben.

'Roedd yn fodlon ar ofalu am ei gardd yn llawn blodau. 'Roedd y tyndra wedi mynd a dim llawer o awydd, ac yn gas ganddi, sgrifennu.

Sgrifennodd at yr argraffydd flwyddyn cyn marw a dweud bod ugain mlynedd wedi mynd heb anfon gair ato, ond tase hi wedi sgrifennu pob tro roedd yn meddwl amdano fase tas o lythyrau i'w cael.

Farwodd yn dawel yn 1938 yn y Gaiman.

Cafwyd pregeth pwrpasol gan Wyn James yn Seion, Esquel, ar y Sul canlynol.

*Alwen Green*



**Menter PATAGONIA**

Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn yn Esquel a Threvelin yn ddiweddar, a bydd hi'n brysurach fyth yn ystod yr wythnosau nesaf wrth i'r flwyddyn academaidd hon ddod i ben. Yn ogystal â gwasanaethau yn y capeli, cyngherddau, twmpathau dawns a swperau arbennig gyda chriw Taith yr Urdd, yr ydym wedi mwynhau nifer o weithgareddau eraill.
Cafwyd noson hyfryd i groesawu Liliana, Margarita, Sara, Alejandro, Jeremy ac Isaías nôl o Gymru. Braf iawn oedd eu clywed yn adrodd yr hanes ac hyfrytach fyth oedd gweld y lluniau a'r fideos yr oedd Margarita wedi'u paratoi. Parhaodd y sgwrs wrth i bawb fwynhau lluniaeth ysgafn yn y Ganolfan.
Beth amser yn ôl cawsom y fraint o groesawu Bill Jones, Wyn James a Walter Brooks o Brifysgol Cymru, Caerdydd i'r Andes, fel y sonnir uchod yn erthygl Alwen Green. Yr oedd yn amlwg i bawb wnaeth fynychu'r noson yng Nghapel Seion Esquel fwynhau'r darlithoedd yn fawr, ac yn sicr fe wnaeth i ni deimlo ein bod ni am ail gydio mewn copïau o lyfrau Eluned Morgan a dysgu mwy am D. S. Davies.
Cafwyd neges bwrpasol iawn gan Wyn James yn yr oedfa yng Nghapel Seion Esquel y diwrnod canlynol - mawr yw ein diolch iddo am gymryd rhan yn y gwasanaeth.
Mae sawl ymwelydd o Gymru wedi bod yma'n ddiweddar a chafodd Glwb Siarad Trevelin gyfle i holi nifer o bobl yng nghaffi El Único Trevelin. Mae'r caffi yn gefnogol o bob peth Cymraeg a rydw i wedi cyfieithu'u bwydlen i'r Gymraeg ar ôl cais gan y perchennog. Os ewch chi i'r caffi, fe welwch gopïau o 'Llais yr Andes' ar y silff hefyd!
Pob dymuniad da i weithgareddau Menter Patagonia yn 2015!



**Pethau Bychain**

Gwnewch y pethau bychain!



# Cornel y plant

Ar ran ysgol Gymraeg yr Andes Trevelin ac Esquel, DIOLCH O GALON I BAWB sydd wedi anfon llythyr neu gerdyn post atom ni. Rydym yn hynod ddiolchgar i bob unigolyn ac i'r ysgolion canlynol - Ysgol Gyfun y Strade Llanelli, Ysgol Gynradd Gymraeg y Login Fach Abertawe, Ysgol Gyfun Aberaeron, Ysgol Bethel Caernarfon, Ysgol Gymunedol Peniel Caerfyrddin, Ysgol Llangefni, Ysgol Pennant Penybontfawr ac Ysgol Llanfair DC Rhuthun. DIOLCH, DIOLCH, DIOLCH!!



Helo, Maxi a Jere dyn ni. Diolch yn fawr iawn i bobl Cymru am y cardiau post a'r llythyron. Dyn ni wedi mwynhau eu darllen nhw a dysgu mwy am ddaearyddiaeth Cymru. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb ym Mhatagonia ac yng Nghymru!

*Maxi a Jere, Esquel*



## Rhai o blant Meithrin 2 Ysgol Gymraeg Trevelin:



Enw – Clara
Oed – 6
Hoffi – gwneud gwaith cartref yn fy llyfr newydd
Ddim yn hoffi – bwyta gormod o milanesas : mae fy mrawd Alejo eisiau milanesas i swper bob nos!
Hoff flas hufen iâ – jam llaeth a siocled
Hoff le – plaza Trevelin
Anrheg Nadolig – popeth Violeta



Enw – Samira
Oed – 5
Hoffi – mynd ar y beic a dringo coed
Ddim yn hoffi – gwylio'r teledu
Hoff flas hufen iâ – ffrwythau'r goedwig
Hoff le – plaza Trevelin
Anrheg Nadolig – tŷ Barbie



Enw – Aarón
Oed – 6
Hoffi – pysgota gyda fy nghefnder
Ddim yn hoffi – bwyta pwmpen
Hoff flas hufen iâ – ffrwythau'r goedwig
Hoff le – plaza Trevelin
Anrheg Nadolig – Ceir bach a sglefrfwrdd

Cewch gyfarfod â'r gweddill tro nesaf!

# O'r dosbarthiadau....................

## Cystadleuaeth Evita






Dw i wedi cael amser prysur iawn yn ddiweddar. Ar nos Fercher y 5ed fe wnes i a gweddill criw dawnsio gwerin Cwm Hyfryd (gyda'n hathrawes Jessica) deithio i Esquel i gymryd rhan yng nghyngerdd yr Urdd a chriw'r Ffermwyr Ifanc yn ogystal â phobl lleol yng nghapel Seion ac yn y Ganolfan Gymraeg. Ar y dydd Gwener, roedd yn amser i'r grŵp deithio i'r Gaiman i gystadlu yn rownd derfynol y cystadlaethau 'Evita'. Daliais y bws am hanner awr wedi deg a wnaethon ni gyrraedd yn y nos. Ro'n ni'n aros yng nghanolfan hamdden y Gaiman a roedden ni'n cystadlu yno hefyd. Cystadlon ni am chwech o'r gloch nos Sadwrn felly yn y bore aethon ni o gwmpas y Gaiman. Mae'n lle neis iawn. Ro'n i'n nerfus IAWN! Dawnsion ni Melin Crawia. Daethon ni nôl nos Sul a ces i llawer o hwyl ar y daith gyda fy ffrindiau. Wnaethon ni ddim ennill y gystadleuaeth ond wnaethon ni ennill ysgoloriaeth arbennig am ein hymdrech. Dw i'n hapus iawn!



*Francis Almonacid*

Dyma rai o gerddi acrostig Gŵyl y Glaniad Esquel



Ysgrifennodd grŵp o'r enw "Y BARDD":

Gwin  
yW  
Y  
gwallt pobL deallus  
sY'n  
Gwybod  
Llawer  
Am  
Natur,  
teImlad  
A  
chrefydD

Ac ysgrifennodd grŵp o'r enw "CRISOL DE RAZAS":

y alGunos  
preguntaron al llegar al Wladfa  
¿Y esto era el paraíso?  
y eL reverendo dijo:  
Y...  
cariad Galeses,  
Lamentablemente  
y Paith  
gwNaf o nuestro hogar  
y nuestro paraíso  
Amen  
Diolch

## Taith i Gymru



Eleni, ym mis Gorffennaf bues i yng Nghymru eto, am y pedwerydd tro. Roedd y profiad yn wahanol iawn. Dim cyrsiau y tro yma. Dim dysgu yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Buon ni'n gweithio (roedd pedwar ohonon ni) ar stondin Patagonia yn Sioe Frenhinol Llanelwedd, ac ar stondin Talaith Chubut yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Buodd gymaint o bobl yn ymweld â'r stondinau! Mae cymaint o ddiddordeb gyda phobl o Gymru am Batagonia!
Rhwng y ddau, bues i yn Aberystwyth, y dref sydd wedi gefeillio gydag Esquel.

*Liliana Melnik*

# Esquel

**Dyma neges fach gan Michael Winter i chi sydd yng Nghymru................**

Wyt ti dal ddim yn gwybod ble i fynd Gaeaf yma? Wyt ti wedi cael digon o Ffrainc, Sbaen, Affrica neu Awstralia? Beth am ddod i Esquel? Dinas fach o 40,000 o bobl yn Y Wladfa yn nhalaith Chubut ydy Esquel. Mae'n bosib wyt ti mwy cyfarwydd â Trevelin, y dref gyfagos, ond mae gan Esquel, fy ninas i, ei swyn hefyd.

Does ddim llawer i wneud yn y ddinas, ond gyrra am awr i'r de, a byddi di'n dod o hyd i harddwch digyffelyb. Y llynnoedd yw'r lle mae pawb yn mynd pan fo dyddiau braf. Os ti'n dod ym mis Rhagfyr, ti'n dod ganol Haf. Awyr las, haul ar dy ben, mate yn dy law a phwdin yn dy geg. Os mae hi'n dwym, byddi di eisiau plymio "headfirst" i'r llyn oer, a chwilio am gerrig yn y dŵr clir, ond dw i ddim yn dweud ymlacio yn y llyn; mae'r dŵr yma yn oer IAWN!

Os mae'n well gyda ti ddringo mynyddoedd, ti'n lwcus taw dyffryn ydy Esquel, felly ti'n gallu dewis rhwng tri i ddringo o'r ddinas. Mae bryn "La Cruz" yn opsiwn cyflym a hawdd, ti angen dim ond prynhawn i nabod o. Ond os ti'n teimlo'n anturus, mae gen ti y mynydd "21" a "Nahuelpan", gyda 2400m, mwy neu lai, bob un. Does dim ffordd i geir yna, felly rhaid i ti dreulio diwrnod cyfan yn dringo bob un. Os does gen ti ddim llawer o amser, a wyt ti eisiau ymlacio rhywle agos, dos i La Zeta. Awr os ti'n cerdded (taith hyfryd) a chwarter awr mewn car, mae'r llyn bach yn hyfryd i gael mate yn y cysgod, gwneud tipyn bach o bysgota neu mynd mewn canŵ.

Os ti'n hoffi sgîo, tyrd ym mis Mehefin, a mwynheua gyrchfan sgîo La Hoya, dim ond 8 milltir o'r dre; does dim gormod o draciau, ond mae'n cael ei nodweddu gan eira hyfryd yn y Gwanwyn, pan mae bob man arall yn sych. Mae o'n rhad a mae ganddo fo olygfa hardd.

Ti ddim yn gallu colli y rafftio yn Corcovado, rhaid i ti yrru dwy awr i wneud o, ond mae'n werth yr ymdrech.

Wrth gwrs, os ti'n teimlo'n hiraethus, tyrd i Ysgol Gymraeg Yr Andes i ymweld ag hen gapel Seion a'n dosbarth ni! Te esperamos!

*Michael Winter*











## Dwy Eisteddfod Genedlaethol Cymru gofiadwy i Isaías Grandis



Treuliodd Isaías ei fywyd cynnar yng Nghórdoba cyn ymgartrefu gyda'i deulu yn Nhrevelin, Godre'r Andes. Nid yw'n dod o dras Gymreig ond ar ôl symud i Drevelin pan oedd yn bedair oed, magodd ddiddordeb yn yr iaith 'estron' a glywai'n cael ei siarad gan ei gymdogion. Dechreuodd fynychu dosbarthiadau Cymraeg Hazel Charles Evans yn Ysgol Gymraeg yr Andes yn 15 mlwydd oed. Cafodd ysgoloriaeth i fynd i Gymru yn 2006 gan ddychwelyd i Gymru yn 2009 ac arsylwi yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog a mynychu cwrs iaith dwys ym Mhrifysgol Caerdydd. Derbyniodd hyfforddiant hefyd yn nulliau dysgu iaith i blant mewn dwy ysgol gynradd. Dychwelodd Isaías i Batagonia a chymryd swydd fel tiwtor Cymraeg lleol yn Ysgol Gymraeg yr Andes, athro Hanes a Daearyddiaeth mewn ysgol uwchradd leol ac fel Athro Twristiaeth yn Ysgol Uwchradd Corcovado.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012 enillodd Isaías 'Tlws Dysgwr y Flwyddyn'. Dywedodd wrth dderbyn y tlws ei fod yn gobeithio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei ardal leol ym Mhatagonia a'i freuddwyd bennaf oedd sefydlu Ysgol Ddwyieithog (Cymraeg a Sbaeneg) yn Nhrevelin fel Ysgol yr Hendre yn Nhrelew. Pan gyhoeddwyd yr enillydd ar y noson arbennig yn Y Bontfaen roedd Hazel Charles Evans yn  ymhyfrydu yn llwyddiant dau ddisgybl iddi o Drevelin. Roedd Sandra de Pol wedi derbyn 'Tlws Dysgwr y Flwyddyn' yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 2000. Fel enillydd urddwyd Sandra de Pol yn aelod o Orsedd Eisteddfod Genedlaethol Cymru pan aeth dirprwyaeth o Gymru i'r Wladfa i ail-sefydlu yr Orsedd yno yn 2001. Yr amser hynny roedd 'Dysgwr y Flwyddyn' yn cael gwisg werdd a dyna gafodd Sandra yn y seremoni yn y Gaiman.



Yn unol â threfniadau newydd Urddau er Anrhydedd Gorsedd y Beirdd, a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn 2012, bydd pob aelod newydd yn dod yn aelod ar yr un gwastad, sef fel Derwydd.

Enillwyr prif wobrau llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn unig, fydd yn cael eu hurddo i'r Wisg Wen gan gynnwys enillydd 'Tlws Dysgwr y Flwyddyn'. Bydd pob person sy'n derbyn aelodaeth trwy anrhydedd Yr Orsedd yn cael eu derbyn un ai i'r Wisg Werdd, neu'r Wisg Las, yn ddibynnol ar faes eu harbenigedd. Bydd y rheini sydd yn amlwg ym myd y Gyfraith, Gwyddoniaeth, Chwaraeon, Newyddiaduriaeth, y Cyfryngau, gweithgaredd bro / neu genedl yn derbyn Urdd Derwydd – Y Wisg Las am eu gwasanaeth i'r genedl. Mae'r Orsedd hefyd yn urddo aelodau newydd i'r Wisg Werdd am eu cyfraniad i'r Celfyddydau. Bydd y rheini sydd wedi sefyll arholiad neu sydd â gradd gymwys ym maes Llenyddiaeth, Cerddoriaeth, Drama neu Gelf, hefyd yn derbyn y Wisg Werdd, yn ogystal ag enillydd Gwobr Goffa Osborne Roberts bob blwyddyn ac enillwyr Cadair a Choron Eisteddfod yr Urdd.

I'r wisg wen felly y derbyniwyd Isaías yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr yn Llanelli eleni. Dyma'r pedwerydd tro i ni'n dau gael y fraint o fod yn dystion i achlysuron pwysig iawn ym mywyd Isaías yn ystod y ddwy flynedd ddiwetha: Awst 8fed yn Y Bontfaen pan enillodd Dysgwr y Flwyddyn; yn ei briodas ag Eluned Mawrth 8fed eleni yng Nghapel Bethel Trevelin; yng ngwasanaeth bendithio'r briodas yng Nghapel Llanddarog Gorffennaf  12fed ac eto yn y Babell Lên yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr fore Llun, Awst 4ydd pan dderbyniwyd Isaías i Orsedd y Beirdd.



Doedd rhagolygon y tywydd ddim yn ddigon ffafriol i'r Gorseddigion fentro cynnal y seremoni wrth gerrig yr Orsedd gerllaw ac felly aethon ni i'r Babell Lên ar y Maes fore dydd Llun, Awst 4ydd eleni i weld Isaías yn cael ei urddo gan Christine James, yr Archdderwydd presennol. Ar y llwyfan roedd yn braf iddo gael cwmni Rebeca White ac Ivonne Owen oedd yn cynrychioli Gorsedd y Wladfa. Roeddem mor falch o Isaías gan wybod ei fod yn llawn haeddu'r anrhydedd hon ac yn gwybod y byddai'n parhau gyda'r sialens i hybu'r iaith Gymraeg draw yn Yr Andes – a Señora Grandis yn gymar ardderchog iddo.

*Dafydd a Meri Griffiths*

# Dathlu Gŵyl y Glaniad yn Y Bala



O dan awyr las Batagonaidd a haul tanbaid, daeth mwy na chant o bobl ynghŷd i Glwb Golff Penlan Y Bala i ddathlu glaniad y Cymry cryf a dewr adawodd Lerpwl ar y Mimosa. Ar yr 28ain o Orffennaf yn y flwyddyn 1865 glaniodd dros gant a hanner o wŷr, gwragedd a phlant ar draeth diffaith yn yr Ariannin, de America a elwir Patagonia. Mae disgynyddion y Cymry hynny yn parhau i gadw iaith a thraddodiadau "yr hen wlad" yn fyw yno.

Er y canmlwyddiant yn 1965 cryfhaodd y cysylltiadau ac mae mynd a dod parhaus rhwng y ddwy wlad.

Ym 1939 sefydlwyd y gymdeithas a adnabyddir heddiw fel Cymdeithas Cymru-Ariannin i fod yn ddolen gyswllt rhwng y ddwy wlad.

Aelodau Y Gymdeithas sy'n gyfrifol am drefnu Gŵyl y Glaniad ar y Sadwrn nesaf at yr 28ain o Orffennaf ar yn ail yn y de a'r gogledd. Tro'r gogledd oedd hi eleni a gwahoddwyd yr aelodau i ddathlu yn Y Bala. Sandra De Pol, Cadeirydd y Gymdeithas oedd yn tywys y gweithgareddau. Cafwyd gair o groeso ganddi a chanwyd anthem genedlaethol Yr Ariannin gydag arddeliad.

Sara Borda Green o'r Andes ddaeth ymlaen i ddweud gair ar ran y gwesteion o Batagonia a Rebeca White o'r Gaiman oedd yn cynrychioli'r myfyrwyr sydd ar gwrs gloywi iaith ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd.

Ymysg y gwesteion o'r Wladfa roedd Isaías Grandis, enillydd tlws y Dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg ddwy flynedd yn ôl.

Paratowyd gwledd hynod gan Glwb Golff Y Bala.



Tra'n gwledda cafwyd cyfle i gymdeithasu â chyfeillion o bell ac agos. Talwyd diolchiadau gwresog gan Elvey Mc Donald, llywydd anrhydeddus y gymdeithas. Enillwyr y raffl oedd 1. John Adams Lewis, Aberteifi 2. Eirian Wyn Lewis, Mynachlog-ddu 3. Jois Snelson, Dinbych 4. Sandra de Pol, Caerdydd 5. Shirley Williams, Caerdydd.

Tra'n treulio'r bwyd blasus cafwyd adloniant gan dalentau lleol o Benllyn. Huw Antur oedd yn cyflwyno'r Tri Gog a Hwntw gan greu penbleth i'r rhai sydd yn methu cyfrif!! Penri Jones gyflwynodd rai aelodau o Gôr Godre'r Aran. Roedd y rhaglen yn amrywiol o'r traddodiadol i ganeuon Robert Arwyn ac Ems.

Rai blynyddoedd yn ôl daeth Alejandro Jones o Drevelin i dreulio cyfnod yn Llanuwchllyn yng nghartref y ddiweddar Aur Roberts yng Ngodre'r Aran.

Ymunodd â'r côr ac roedd yn wefr ei gael i ganu gyda'r côr unwaith eto i gyfeiliant ei gitâr. Llwyddodd i greu awyrgylch arbennig a buasai Aur wedi bod wrth ei bodd. Gwerfyl Williams a Bethan Antur oedd y ddwy gyfeilyddes.

Daeth y cyfarfod i'w derfyn gyda chydganu Hen Wlad Nhadau.

Parhaodd y dathlu allan yn yr heulwen a'r ddwy faner yn cyhwfan gyda'i gilydd yn dyst i'r cwlwm cyfeillgarwch.

Y flwyddyn nesaf bydd dathliadau 150 o sefydlu'r Wladfa yn cael eu cynnal ledled Cymru a Phatagonia. Ceir gwybodaeth ar wefan y gymdeithas www.cymdeithas Cymru-Ariannin.com.

*Nans Rowlands*

# Cyfweliad gyda Daiana Mancilla ac Ana Laura Ortiz



**1. Dywedwch ychydig am eich cefndir.**
Daiana – Ces i fy ngeni yn Esquel ond dw i wedi byw yn Nhrevelin ers chwe blynedd. Dechreuais i ddysgu Cymraeg yn Ysgol Gymraeg yr Andes Trevelin dwy flynedd yn ôl a dw i wrth fy modd gyda'r iaith a'r diwylliant.
Ana – Wnes i ddechrau dysgu Cymraeg chwe blynedd yn ôl gyda Nesta am flwyddyn, wedyn gadawais i achos y gwaith a dechrau cael gwersi eto y llynedd. Mae teulu Cymraeg gyda fi ochr fy mam.

**2. Disgrifiwch ddiwrnod cyffredin i chi ym Mhatagonia.**
Daiana – Dw i'n codi am 7 neu 8 ac yna'n astudio yn y tŷ tan amser cinio. Dw i'n cael cawod wedyn cyn mynd i weithio ac astudio'n y Brifysgol. Dw i'n dod nôl am 9 neu 10 o'r gloch, yn cael swper ac yna'n mynd i'r gwely. Ar ddydd Mercher a dydd Gwener dw i'n helpu gyda'r plant meithrin yn yr Ysgol Gymraeg.
Ana – Athrawes Saesneg dw i a dw i'n codi'n gynnar i fynd i'r ysgol. Yn y gaeaf, dw i'n hoffi mynd i'r ganolfan hamdden yn y prynhawn ond yn yr haf dw i'n mwynhau bod allan yn yr awyr agored a mynd am dro i'r llyn.



**3. Beth allech chi ddim byw hebddo?**
Daiana – Haul – dw i'n casau'r gaeaf!
Ana - Mynyddoedd

**4. Pa un yw diwrnod pwysicaf eich blwyddyn?**
Daiana – Dydd Nadolig
Ana – Dydd Nadolig a'r Pasg

**5. Pwy yw eich arwr?**
Daiana – Steve Jobs
Ana – Does dim arwr arbennig gyda fi, ond dw i'n edmygu llawer o bobl

**Yn fyr, beth yw eich hoff:**
**Lyfr:** Daiana – Harry Potter Ana – dw i'n darllen llawer, dw i'n chwilfrydig iawn!
**Emyn:** Daiana – Calon Lân Ana – Hymno de la alegría a Calon Lân
**Darn o gerddoriaeth:** Ana - Soul
**Ffilm:** Ana – La historia sin fin
**Rhaglen radio a theledu:** Ana – rhaglenni dogfen
**Lle:** Ana – Mynyddoedd Patagonia
**Gair:** Ana – Diolch
**Taith:** Ana – Rhewlif Perito Moreno
**Bwyd:** Ana – Teisen blât
**Enw:** Ana – Sara



## Ble maen nhw'n awr? .......... Nesta Davies

Mae hi'n ddeng mlynedd ers imi ddychwelyd adre o'r Wladfa ar ôl bod yn Diwtor/Hyfforddwr yn yr Andes o Orffennaf 2012 hyd Rhagfyr 2012, a bu tipyn o dro ar fy myd ers hynny.

Tra'r oeddwn acw, cefais flas ar gynnal ac arwain gwasanaethau, a theimlwn Alwad i wneud hynny fwy-fwy ar ôl dychwelyd i Gymru, felly gwnes i ddim mynd yn ôl i ddysgu plant bach yn llawn- amser, er y bum yn helpu gyda'r Gymraeg yn Ysgol Pen-y Bryn Bae Colwyn tra'r oedd yr athrawon yn paratoi gwersi. Cefais fwy o flas ar ddysgu Cymraeg i Oedolion a phregethu ar y Sul, a bum yn gweithio i Goleg Llandrillo a Choleg Llysfasi yn cynnal Cyrsiau yn y Gweithle ac i Popeth Cymraeg yn dysgu yn y Gymuned ac ar Gyrsiau Pasg a Haf. Hyfryd oedd cyfarfod â rhai o bedwar ban byd oedd yn awyddus dysgu neu wella eu Cymraeg, ac yno dois i adnabod Isaías am y tro cyntaf. Bum hefyd yn smalio bod yn *housekeeper* yng Nghastell Bodelwyddan yn tywys grwpiau o blant a dweud hanesion.

Yn 2006 ces fy nerbyn yn Ymgeisydd am y Weinidogaeth Lawn-Amser gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru a dechreuais ar gwrs dwy flynedd yn astudio Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor, a chwrs Bugeiliol yn y Coleg Gwyn yn cysgodi gweinidogion a chael profiadau yn cynorthwyo ar Gyrsiau Plant yng Ngholeg y Bala, a'r Bobl Hŷn yn Coleg Trefeca, arwain myfyrdodau yn y Weinidogaeth Iachau, a chynnal gwasanaethau yn Nyffryn Clwyd a Gogledd Cymru a mentro ymhellach i Lerpwl, Manceinion a Llunain.

Ond anghofiais i ddim amdanoch – ceisiais hel arian i anfon cylchgronau'r Urdd a llyfrau draw drwy werthu cacennau a rhoi sgyrsiau am y Wladfa, a bum wrthi'n ddyfal yn mynychu gwersi Sbaeneg ac ymarfer a chefais gyfle i ddod am dro yn 2009 a 2011.

Mehefin 2013 cefais fy nghomisiynu'n Gynorthwy-ydd Gweinidogaethol ym Mro Dinbych, yn helpu'r Parch Wayne Roberts (fydd yn ymweld â'r Wladfa Hydref 2015) i ofalu am 11 capel a chefais fy Ordeinio Tachwedd 2013. Yn ogystal â phregethu ar y Sul caf fendith yn

Ymweld â'r rhai'n gaeth yn eu tai a'r cartrefi preswyl
Mynychu Hyfforddiant mewn swydd Gweinidogion
Helpu yn y Banc Bwyd
Cadeirio pwyllgor *Cytun* yn nhre Dinbych
Cymeryd rhan yng Nghyfarfodydd Gweddi ac Ysgol Haf Y Weinidogaeth Iachau
Arwain Tim *Agor y Llyfr* a chyflwyno Straeon Beiblaidd yn Ysgol Twm o'r Nant a Thremeirchion
Paratoi adnoddau i waith Plant a Phobl Ieuanc.

Mae'r merched wedi cael swyddi ymhell o gartef, Siân yn briod rwan ag Ian ac yn byw yn Crewe a gweithio efo myfyrwyr o dramor ym Mhrifysgol Manceinion, Bethan yn byw yn Castleford efo partner sydd a merch 6 oed...felly dw i'n Nain wen... a gweithio ym Mhrifysgol Leeds, a Gwenan yn artist yn Glasgow. Braf yw eu gweld nawr ac yn y man.

Byddaf draw am dro gyda chriw o Ogledd Cymru fis Mawrth nesa, ac edrychaf ymlaen at ddathlu 150 efo chi.



Dyma fi yn fy Ngholer Gron



Fel Housekeeper



Storiwr Agor y Llyfr

Sws fawr i BAWB,

Nesta



Arweinydd Côr Dysgwyr



Efo'r teulu

## Ble maen nhw'n awr? .......... Elen Davies



Rwyf innau yn dal i fyw yng Nghwm Gwendraeth ond yn gweithio ar draws Sir Gaerfyrddin erbyn hyn. Rwyf dal i wneud gwaith tebyg i beth oeddwn yn ei wneud cyn i fi ddod atoch i Ysgol Gymraeg yr Andes. Mewn ffordd mae'n eithaf tebyg hefyd i beth oeddwn yn ei wneud pan oeddwn gyda chi yna. Rwy'n gweithio gyda phlant sydd newydd symud i fyw i Gymru o wledydd eraill ac felly mae'n rhaid dysgu'r iaith Gymraeg iddynt yn gyflym er mwyn iddynt ymdoddi i ysgolion ein sir. Rwyf hefyd yn helpu i hyffroddi athrawon ac oedolion sy'n gweithio yn ein hysgolion i ddysgu neu wella eu Cymraeg. Heddiw roeddwn yn gweithio gyda phlant i wella safon eu Cymraeg, yn enwedig eu Cymraeg ysgrifenedig. Thema un o'r diwrnodau iaith yw "Mordaith y Mimosa" lle maent yn ysgrifennu dyddiadur dychmygol un o'r plant ar y Mimosa wrth dethio i'r Wladfa. Wrth wneud hyn bydd plant Sir Gaerfyrddin yn dod yn ymwybodol o'r dathlu y flwyddyn nesaf a'r hanes sy'n clymu ein dwy wlad.
Rwyf yn aelod o'r pwyllgor Dathlu 150 sydd yma yng Nghymru ac yn cwrdd yn eithaf aml. Rwyf wedi bod wrthi yn gweithio gyda'r lleill ar y prosiectau addysg, yn arbennig hyrwyddo deunyddiau Cymraeg, Saesneg a Sbaeneg ar gyfer plant Cymru a Chubut.
Yn y llun gallwch fy ngweld i'n cael fy ngwneud yn Llywydd Cenedlaethol UCAC 2013-14 (sef Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru). Roedd hwn yn golygu fy mod yn cael rhywfaint o amser i ffwrdd o'm gwaith fel athrawes y llynedd i fod yn Llywydd yr undeb. Roedd yn brofiad arbennig iawn ac mi wnes i fwynhau y cyfle i gael profiadau gwahanol a chyffrous, ac ymweld â swyddogion addysg Llywodraeth Cymru, yn ogystal â siarad dros ein haelodau yn Llundain. Wrth gwrs y rhan mwyaf pleserus o'r gwaith oedd ymweld ag ysgolion ac athrawon ar draws Cymru.

*Elen Davies*

## Arwyddion dwyieithog yn Nhrevelin




Mae mwy o arwyddion dwyieithog/tairieithog wedi ymddangos yn Nhrevelin yn ddiweddar. Dyma rai ohonynt:









## Gyda'r Nadolig ar drothwy'r drws, dyma rai o wragedd Esquel yn hel atgofion am ddathlu'r ŵyl yn blant……….

**Aira** - Amser hapus oedd y Nadolig pan oeddwn yn blentyn; noson cyn y 'Dolig y peth mwyaf oedd disgwyl Santa Clôs – mae'n siŵr mai doli oeddwn yn gael, a chael ffrog a sgidiau newydd erbyn y cyngerdd.
Diwrnod 'Dolig, cinio arbennig i'r dathliad; twrci wedi ei stwffio a phlum pudding. Yn y pnawn, mynd efo'r teulu, ffrindiau a chyfnitheroedd i'r Capel; wedi dysgu adrodd a chanu yn y 'Band of Hope' erbyn y cyngerdd. Pawb yn gwneud ei orau; ac i ddiweddu cael tegan o'r goeden hyfryd roedd pobl y capel wedi addurno.
I orffen y dydd, cael paned o de a chwarae allan efo'r plant. Gwahanol iawn i fel mae'r dathliad rwan.

**Rini** - Diwrnod Nadolig, ro'n i'n arfer mynd i gapel Bryn Crwn, cael te parti yn y festri ac yna cyngerdd i ddilyn. Dysgu darnau ar ein cof am y Nadolig a chanu carolau. Cinio Nadolig fyddai asado o dan y coed os oedd yn boeth. Digon o salad a'r pwdin oedd salad ffrwythau. Os fuasai'n oer, plum pudding a sos gwyn.
Roedd Siôn Corn yn gadael presantau bach diniwed fel oren, rhuban gwallt i wisgo diwrnod Nadolig, sanau gwyn a treinyrs gwyn. Dim llawer o lol, ond roedden ni'n mwynhau'r diwrnod.

**Elvira** - Diwrnod Nadolig, roedden ni'n mynd i'r Capel ac yn canu carolau yno. Roedd rhodd i bob un o'r plant ar y goeden Nadolig ac roedd pawb yn hapus iawn yn disgwyl Santa Clôs.
Diwrnod ar ôl Nadolig, ro'n i'n arfer mynd i weld fy ffrind i ddangos beth oeddwn i wedi'i gael fel anrheg wrth Santa.

**Esther** - Dyna ias oeddwn yn teimlo o ddeffro ben bore a rhedeg efo'm chwiorydd i nôl yr hosan oedd yn hongian wrth y lle tân â rhywbeth oedd Santa Clôs wedi ei adael ynddi.
Y pleser o gyrraedd y Capel ac arogl rhosod yn llenwi'r lle a'r goeden yn y gornel yn llawn teganau, pethau bach iawn amser hynny ond pethau a oedd yn ein gwneud mor hapus. Canu "Wele cawsom y Meseiah" nerth ein pennau a thonau bach eraill. Dillad gorau amdanom.
Ein rhieni yn gofalu nad oeddem yn anghofio ystyr y Nadolig, nid gŵyl i wledda a chael hwyl, ond gŵyl i gofio geni Iesu Grist yn dlawd mewn preseb. Mae'r atgofion yn dal yn fyw o hyd.

**Amanda** - Dw i'n cofio gweld a chlywed dada (fy nhad) yn ein dysgu i ganu carolau ar gyfer y Capel, a gofalu ein bod ni'n dysgu'r geiriau yn berffaith ac yn canu'n glir. Cofiaf mam yn torri tusw mawr o lilis gwynion i'w rhoi yn y capel. Ro'n ni'n cael taffi o'i gwaith yn yr hosan, a ninnau'n credu mai Santa oedd wedi bod wrthi! Cawsom ein dysgu mai cofio am enedigaeth y baban Iesu oedd diwrnod y Nadolig.

**Lizzie** – Pan oeddwn yn blentyn, ro'n i'n byw ar y ffarm yn Nhrevelin. Noson y 24, roeddwn yn disgwyl Santa Clôs a fel arfer roedd yn cofio fy mod eisiau pâr o sanau newydd neu rywbeth i'r gwallt. Diwrnod Nadolig, ro'n i'n mynd i Gapel Bethel ac roedd yna goeden anferth yn llawn o deganau a ni y plant yn canu ac yn adrodd cyn mynd dan y coed i gael paned o de. Erbyn y Nadolig, roeddwn yn cael ffrog newydd a roedden ni fel plant yn disgwyl y diwrnod hwnnw yn fawr.



# Cornel Coginio

Mae Clare newydd ddarganfod – fel mae llawer o bobl yn gwneud y dyddiau hyn – ei bod yn dioddef o glefyd coeliag a dyma un o'i hoff ryseitiau hyd yn hyn!

**Brownies Heb Glwten**



**75 g siocled di-glwten** wedi ei dorri mewn darnau mân
**100g menyn** ac ychydig er mwy iro'r tun
**200g siwgr brown** (er bod yn bosib defnyddio siwgr cyffredin hefyd)
**2 ŵy** wedi'u curo
**50g o almwns** wedi'u chwalu'n fân
**25 g o flawd reis**
**150 g o gnau Ffrengig** wedi'u torri'n fân

Irwch dun 28 x 18cm gyda menyn ac wedyn rhowch bapur gwrthsaim i mewn hefyd.
Toddwch y siocled a'r menyn mewn powlen dros sosban o ddŵr poeth. Mae'n bosib gwneud hyn yn y meicrodon ond rhaid gofalu bod y siocled ddim yn llsogi.
Cymysgwch yr holl gynhwysion eraill gyda'r siocled a rhowch y gymysgedd yn y tun ac i mewn i'r ffwrn am tua 30 munud ar 180 gradd C. Mae'n barod pan mae'n teimlo fel sbwng pan rydych chi'n pwyso ar y top.
Os nad ydych chi'n gallu dod o hyd i almwns mae'n bosib defnyddio 50g mwy o flawd reis.
Mae'n bosib rhoi resins i mewn i'r cymysgedd hefyd.
Blasus iawn fel maen nhw neu yn gynnes gydag hufen iâ (heb glwten)!

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Angenrheidiol | necesario | Cynhadledd | conferencia |
| Deuddydd | dos días | Gwesteion | invitados |
| Raffl | rifa | Clymu | atar |
| Tywysydd | guía | | |
| Canmlwyddiant a hanner | sesquicentenario | | |
| Llywydd | presidente | | |
| Arogl | olor | | |



**Digwyddiadur**

Mae nifer o ddigwyddiadau i ddod cyn y gwyliau:

Dathlu diwedd y flwyddyn yn Nhrevelin - nos Wener 28ain o Dachwedd am 19:30

Micro Eisteddfod Esquel - 18:00 Dydd Sadwrn 29ain o Dachwedd

Gwasanaeth Capel Seion Esquel

# Beth yw eich dymuniad ar gyfer 2015?




Cristina - Heddwch yn y byd, mwy o waith i bobl yn yr Ariannin a llai o lygredd

Diana - Llai o lygredd a heddwch

Esther - Heddwch i bawb

Ana-Laura – I bawb barchu ei gilydd

Liliana - Rhagluniaeth, llwyddiant ac hapusrwydd i bawb

Daiana– Dechrau astudio pwnc arall yn y Brifysgol

Gladys - Heddwch yn y byd er mwyn i blant bach beidio â dioddef rhyfel

Aira - Heddwch ac iechyd i bawb

Jeremias - Dysgu llawer o Gymraeg yng Nghymru

Amanda - I bethau wella'n y wlad

Imanol- Dysgu mwy o Gymraeg

Lilian - Pawb i fod yn hapus gyda'u teulu, eu cymdogion a chymuned yr eglwys

Rini - Llywodraeth y wlad i newid

Isaías – Dymuniadau gorau ar gyfer y Canmlwyddiant a hanner ac yn arbennig i'r ysgol Gymraeg newydd yn Nhrevelin, ac i'r Arglwydd ein harwain ym mhob peth

Margarita – Bod pawb yn cydweithio'n egnïol er mwyn parhau gyda phrosiectau'r Canmlwyddiant a hanner. Diolch i bawb sydd wedi gweithio'n ddiflino er mwyn gwneud Ysgol Gymraeg Trevelin yn realiti

Sandra - Dim newyn i blant/ ieuenctid y byd

